# Canllaw cadarnhad y cyflogwr

## EAL Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) – Plymio a Gwresogi

Dylai cyflogwr y dysgwr lenwi Ffurflen A a Ffurflen B.

| Fersiwn | Dyddiad | Rheswm dros y newid |
|---|---|---|
| 1.0 | Awst 2021 | |
| 1.1 | Gorffennaf 2022 | Mân ddiweddariadau generig, portffolio wedi ei ailosod gan dystiolaeth wedi'i ddogfennu |
| 2.0 | Chwefror 2025 | Wedi ychwanegu datganiad i'r uned drydanol i gyfeirio at efelychu agweddau o brofion diogelwch critigol trydanol. |

The City and Guilds of London Institute.
Incorporated by Royal Charter. Founded 1878.
Registered Charity in England and Wales 312832 and in Scotland SC039576.

EAL (Excellence, Achievement & Learning Limited)
Registered in England and Wales number 02700780

# Contents


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rôl y cyflogwr | 3 |
| Rôl y darparwr hyfforddiant | 3 |
| City & Guilds \| EAL | 4 |
| Gofynion tystiolaeth | 4 |
| Ffurflen A - Gwybodaeth cadarnhad y cyflogwr | 5 |
| Ffurflen B - Gwybodaeth rhestr wirio'r cyflogwr | 5 |
| Canllaw 8 cam i Gyflogwyr a Darparwyr | 6 |
| Ffurflen A - Cadarnhad y cyflogwr | 7 |
| Ffurflen B - Rhestr wirio'r cyflogwr | 9 |

## Cyflwyniad

Mae gan gyflogwyr fwy o rôl yn y gwaith o ddarparu'r gyfres newydd o gymwysterau prentisiaeth yn y sector adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu.

Mae cadarnhad y cyflogwr yn rhoi arweiniad i gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ar sut mae gofynion perfformiad ar y safle wedi cael eu bodloni. Drwy ddarparu tystiolaeth drwy lenwi'r dogfennau canlynol a chwblhau'r holl ddulliau asesu yn y cymhwyster a'r cydrannau angenrheidiol yn y fframwaith (gan gynnwys asesiad y diwydiant o gymhwysedd galwedigaethol), bydd y dysgwr yn gallu gwneud cais a chael y cerdyn diwydiant perthnasol ar y raddfa briodol.

Pwrpas cadarnhad y cyflogwr yw rhoi sicrwydd i ganolfannau a chyrff crefft bod y dysgwr yn fedrus yn yr alwedigaeth a'i fod wedi cyrraedd yr ystod lawn o safonau perthnasol. Mae casglu tystiolaeth yn caniatáu i'r darparwr hyfforddiant wneud yn siŵr bod 'Ffurflen A Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B Rhestr Wirio'r Cyflogwr' yn ddilys. Ar ôl cwblhau hyn, bydd trywydd archwilio i gefnogi'r penderfyniad a fydd wedyn yn caniatáu i'r dysgwr fynd ymlaen i'w asesiad terfynol, y drafodaeth broffesiynol.

## Rôl y cyflogwr

- Byddant yn gweithio gyda phrentisiaid drwy gydol eu prentisiaeth ac yn eu cefnogi.
- Mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r darparwr hyfforddiant i nodi'r amrywiaeth o dasgau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion perfformiad, prosiect seiliedig ar waith a llenwi 'Ffurflen A - Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B - Rhestr Wirio'r Cyflogwr'.
- Darparu cyfleoedd i'r dysgwr gyflawni'r gweithgareddau a amlinellir yn y gofynion perfformiad.
- Cwrdd â darparwyr hyfforddiant i adolygu a chofnodi cynnydd y dysgwr drwy gydol ei brentisiaeth.
- Cefnogi'r dysgwr i gasglu tystiolaeth i gadarnhau hyfedredd yn y tasgau y gwnaeth eu cyflawni.
- Cefnogi'r dysgwr i cofnodi ei dystiolaeth, e.e. trwy ddyddiadur neu ddogfen o'r fath.
- Cadarnhau pan fydd y dysgwr wedi bodloni'r safon ofynnol ar gyfer y grefft; ac yn barod i symud ymlaen i'r asesiad terfynol (y drafodaeth broffesiynol), bydd hyn yn cael ei gadarnhau drwy lenwi 'Ffurflen A Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B Rhestr Wirio'r Cyflogwyr'.
- Cefnogi'r dysgwr i wneud cais am gerdyn cymhwysedd perthnasol y diwydiant.

## Rôl y darparwr hyfforddiant

- Bydd y darparwr hyfforddiant yn gweithio gyda chyflogwyr i arwain a chefnogi'r dysgwr drwy gydol ei daith.
- Bydd yn mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r cyflogwr i nodi'r ystod o weithgareddau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion perfformiad ar y safle a phrosiect seiliedig ar waith.
- Sicrhau ansawdd 'Ffurflen A - Cadarnhad y Cyflogwr' a 'Ffurflen B - Rhestr Wirio'r Cyflogwr' a fydd yn caniatáu i'r dysgwr symud ymlaen i'w asesiad terfynol o'r cymhwyster, sef y Drafodaeth Broffesiynol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth a gesglir gan eu holl brentisiaid yn briodol ac yn gyflawn drwy gynnal a chofnodi samplau sicrhau ansawdd mewnol (wedi'u cadarnhau drwy lofnodi/dyddio adran 3 o 'Ffurflen A - Cadarnhad y Cyflogwr').
- Cefnogi'r cyflogwr a'r dysgwr i gofnodi'r dystiolaeth y cyfeirir ato yn y datganiadau.

- Byddant yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddarparwyr hyfforddiant a chyflogwyr drwy weminarau a gwybodaeth ar wefan Sgiliau i Gymru.
- Sicrhau bod gan ddarparwyr hyfforddiant brosesau asesu ac ansawdd addas a chadarn ar waith drwy ein hadran sicrhau ansawdd.
- Rhoi tystysgrifau i brentisiaid ar ôl iddynt lwyddo i gwblhau'r holl elfennau asesu.

## Gofynion tystiolaeth

Ni ddylai'r gwaith o greu tystiolaeth y dysgwr ddechrau oni bai fod y cyflogwr yn fodlon bod y dysgwr yn gweithio'n gyson ar lefel sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y datganiadau perfformiad, neu'n rhagori arnynt. Hynny yw, tybir eu bod wedi cyflawni hyfedredd galwedigaethol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, gall y cyflogwr gael cyngor gan ddarparwr hyfforddiant y dysgwr. Yn y pen draw, rhaid i'r penderfyniad cyffredinol gael ei wneud gan y cyflogwr/cyflogwyr.

- Rhaid i brentisiaid gofnodi tystiolaeth yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen.
- Rhaid i'r portffolio gynnwys digon o dystiolaeth, wedi'i gasglu yn y gweithle, i ddangos y datganiadau perfformiad ar y safle.
- Fel arfer, bydd yn cynnwys 15 darn o dystiolaeth, a gallai fod ar fformat dyddiadur neu ddogfen o'r fath.
- Rhaid mapio'r dystiolaeth yn ôl y datganiadau perfformiad ar y safle.
- Gallai ffynonellau tystiolaeth gynnwys y canlynol (nid yw hon yn rhestr gyflawn):
    - dogfennau'r gweithle, er enghraifft cardiau gwaith/taflenni gwaith, dogfennau comisiynu, cofnodion cynnal a chadw
    - manylebau wedi'u hanodi, er enghraifft lluniadau, cyfarwyddiadau gwaith.
    - ffotograffau wedi'u hanodi
    - clipiau fideo (hyd at 10 munud o hyd) gyda stampiau amser clir yn nodi pryd mae darnau allweddol o dystiolaeth yn digwydd.
- Ni ddylai tystiolaeth gynnwys unrhyw ddulliau hunanfyfyrio na hunanasesu.
- Dylai unrhyw gyfraniadau gan y cyflogwr ganolbwyntio ar arsylwi yn uniongyrchol ar hyfedredd (er enghraifft datganiadau gan dystion) yn hytrach na barn.
- Rhaid i'r dystiolaeth gael ei dilysu gan gyflogwr ac wedi ei chasglu'n ddiweddar. Dylai fod digon o dystiolaeth i ddangos bod y datganiadau perfformiad ar y safle wedi eu bodloni.
- Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir fod yn ddilys ac yn briodoladwy i'r dysgwr; rhaid i'r dystiolaeth ddogfennol fod yn gyflawn. Mae llofnod y cyflogwr ar y ddogfen gadarnhau yn cadarnhau bod hyn yn wir.

# Ffurflen A  Cadarnhad y Cyflogwr

Mae hon yn ffurflen generig sydd wedi'i rhannu'n dair adran. Mae hi wedi'i gosod mewn cyd-destun ar gyfer pob crefft yn y sectorau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu. Cyfrifoldeb y cyflogwr yw llenwi'r ffurflen hon ar y cyd â'r darparwr hyfforddiant a'r dysgwr.

### Adran 1

- Yn cael ei llenwi ar ddechrau taith y dysgwr yn dilyn cyfarfod cychwynnol gyda'r darparwr hyfforddiant.
- Nodi'r ystod o weithgareddau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion perfformiad ar y safle a'r prosiect seiliedig ar waith.

### Adran 2

- Nodi penawdau uned y gofynion perfformiad ar y safle y bydd yn rhaid i'r dysgwr eu cwblhau.
- Bydd y cyflogwr yn ticio ac yn nodi llythrennau cyntaf ei enw ar yr uned y mae dysgwr yn ei chyflawni o dan ei arweiniad.
- Mae darpariaeth i fwy nag un cyflogwr lenwi'r adran hon. Pwrpas hyn yw pan fydd dysgwr yn cael ei gyflogi drwy'r cynllun prentisiaeth ar y cyd a bod mwy nag un cyflogwr yn rhan o'r broses.
- Pan fydd mwy nag un cyflogwr yn ymwneud â'r un dysgwr, bydd yr adran hon yn cael ei llenwi gan y cyflogwr sy'n cadarnhau bod y gweithgaredd terfynol ar Ffurflen B wedi cael ei gyflawni.
- Pan fydd efelychiad yn dderbyniol ar gyfer uned(au), bydd yr asesydd sy'n alwedigaethol gymwys yn llenwi'r adran hon i gadarnhau bod y gweithgareddau yn Ffurflen B wedi cael eu cwblhau

### Adran 3

- Mae'r adran hon i'w llenwi pan fydd cyflogwr wedi newid.
- Mae'r adran hon yn cael ei llenwi gan bob un o'r cyflogwyr sy'n cefnogi ac yn arwain y dysgwr, yn ogystal â'r darparwr hyfforddiant, y sicrhawr ansawdd mewnol a'r dysgwr.
- Ar ôl ei gwblhau, gellir cyflwyno'r dysgwr ar gyfer ei asesiad terfynol o'r cymhwyster (y Drafodaeth Broffesiynol).
- Ar ôl ei llenwi, gall y dysgwr fynd ymlaen i'w asesiad terfynol (y drafodaeth broffesiynol).

# Adran B  Rhestr Wirio Cyflogwr

Mae'r ffurflen hon wedi cael ei gosod mewn cyd-destun ar gyfer pob crefft yn y sectorau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu. Mae'r log yn tynnu sylw at yr unedau y bydd yn rhaid i brentis eu cwblhau ar gyfer ei grefft. Cyfrifoldeb y cyflogwr/cyflogwyr yw cwblhau hyn ar y cyd â'r darparwr hyfforddiant a'r dysgwr.

- Mae pob uned yn cynnwys teitl, tasg a darpariaeth i'r cyflogwr/cyflogwyr gadarnhau bod y dysgwr yn hyfedr drwy roi tic yn y blwch cyflogwr cyfatebol.
- Mae gan bob uned perfformiad le i hyd at bedwar cyflogwr gadarnhau bod y dysgwr yn hyfedr ym mhob maen prawf.
- Pan fydd gan brentis fwy nag un cyflogwr, bydd y cyflogwr sy'n llofnodi fel cyflogwr rhif un yn parhau i fod yn gyflogwr rhif un wrth lenwi dogfennau. Bydd cyflogwyr ychwanegol yn llenwi'r adrannau cyfatebol ar gyfer cyflogwyr ychwanegol.
- Mae cyflogwyr yn gwneud penderfyniadau bod y dysgwr, yn eu barn nhw, yn gallu cwblhau'r dasg i safon foddhaol yn y diwydiant mewn modd amserol a diogel.
- Gall gwahanol gyflogwyr gadarnhau bod y dysgwr yn hyfedr yn yr un gweithgaredd sy'n dderbyniol.
- Bydd y dysgwr yn casglu ac yn cadw tystiolaeth i ddangos sut mae wedi bodloni'r meini prawf gweithgaredd yn unol â'r gofynion perfformiad ar y safle.

## Canllaw 8 cam i Gyflogwyr a Darparwyr

Mae'r canllaw 8 cam yma yn rhoi golwg gyffredinol i gyflogwyr a darparwyr o'r gefnogaeth y bydd angen ei rhoi i ddysgwyr er mwyn cyflawni cyfres prentisiaeth Lefel 3 newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru.

### Cam 1

Dysgwr yn sicrhau cyflogaeth ac yn dechrau ei daith dysgu.

### Cam 2

Mae darparwyr yn cwrdd â'r cyflogwr i nodi'r amrywiaeth o dasgau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion perfformiad a'r prosiect seiliedig ar waith.

### Cam 3

Datblygu a chytuno ar archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer proses cadarnhad y cyflogwr.

### Cam 4

Adolygiadau cyfnodol o gynnydd y dysgwr a gwiriadau ansawdd o dystiolaeth gan y diwydiant.

### Cam 5

Arsylwi ar brosiect diwydiant ymarferol.

### Cam 6

Cyfarfod adolygu terfynol gyda'r cyflogwr a'r dysgwr. Y cyflogwr yn cwblhau'r ddogfen cadarnhad.

### Cam 7

Mae'r dysgwr yn symud ymlaen i'r asesiad terfynol o'r cymhwyster. (Trafodaeth Broffesiynol).

### Cam 8

Ar ôl cwblhau'r holl gydrannau'n llwyddiannus, bydd EAL yn ardystio'r cymhwyster.

# Ffurflen A  Cadarnhad y cyflogwr

Mae cadarnhad y cyflogwr yn cadarnhau bod y dysgwr yn alwedigaethol fedrus ac wedi bodloni holl ofynion perfformiad yr unedau a'i fod nawr yn gallu parhau â'i asesiad terfynol o'r cymhwyster, sef y Drafodaeth Broffesiynol.

- Cyfrifoldeb y cyflogwr yw'r ddogfen cadarnhad gyda chefnogaeth y darparwr hyfforddiant.
- Y sicrhawyr ansawdd mewnol fydd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y broses.
- Bydd y corff dyfarnu yn gwirio'r broses fel rhan o drefn sicrhau ansawdd allanol.

## Adran 1: Manylion y dysgwr

| | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr | |
| Rhif cofrestru'r dysgwr | |
| Teitl a rhif y cymhwyster | |
| Enw'r ganolfan | |

## Adran 2: Gofynion perfformiad

| Gofynion perfformiad wedi'u bodloni mewn unedau ar gyfer | ✓ | Llythrennau cyntaf enw'r cyflogwr |
|---|---|---|
| Gweithredu Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac Amgylcheddol yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu | ☐ | |
| Sefydlu a Chynnal Perthnasoedd yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu | ☐ | |
| Cydlynu Safle Gwaith yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu | ☐ | |
| Gwneud Gwaith Trydanol ar Systemau Plymio a Gwresogi | ☐ | |
| Cyflawni Technegau Gosod, Comisiynu, Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Systemau Plymio a Gwresogi | ☐ | |

# Ffurflen A  Parhad

Ar ôl ei gwblhau, mae modd cyflwyno'r dysgwr ar gyfer ei asesiad terfynol o'r cymhwyster, sef y Drafodaeth Broffesiynol.

## Adran 3: Cadarnhad y cyflogwr

| Rôl | Enw'r Cwmni | Enw'r gweithiwr | Swydd yn y cwmni | Llofnod (mae modd teipio hwn) | Llythrennau cyntaf enw | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogwr: 1 | | | | | | |
| Cyflogwr: 2 | | | | | | |
| Cyflogwr: 3 | | | | | | |
| Cyflogwr: 4 | | | | | | |
| Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | | | | | |

# Ffurflen B Rhestr wirio'r cyflogwr

## Rhestr wirio gofynion perfformiad: Plymio a Gwresogi

| Enw'r dysgwr | |
|---|---|

| Gweithredu Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac Amgylcheddol yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Uned 312) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Nodi rheoliadau a safonau priodol y diwydiant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Defnyddio gweithdrefnau perthnasol y sefydliad:** | | | | |
| rheoli gwybodaeth | Tystiolaeth drwy gwblhau uned 321PH | | | |
| datganiad dull | | | | |
| rheoli prosiect | | | | |
| asesu risg | | | | |
| gweithredu a monitro gofynion a materion iechyd a diogelwch | | | | |
| gweithredu a monitro materion yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol | | | | |
| gwasanaethau i gwsmeriaid | | | | |
| adrodd am ddamweiniau | | | | |
| argyfyngau | | | | |
| cyfathrebu â phobl berthnasol | | | | |
| **Nodi peryglon a risgiau:** | | | | |
| Peryglon a risgiau (mewnol a/neu allanol): | | | | |
| domestig | Tystiolaeth drwy gwblhau uned 321PH | | | |
| annomestig (masnachol, diwydiannol, amaethyddol, garddwriaethol, hamdden ac adloniant, cyfleusterau gofal preswyl a meddygol, priffyrdd cyhoeddus a pharciau, sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, adeiladau traddodiadol/hanesyddol cyn 1919) | | | | |
| Safle: | | | | |
| adeiladu o'r newydd – adeilad neu strwythur | Tystiolaeth drwy gwblhau uned 321PH | | | |
| adeilad neu strwythur presennol | | | | |

# Ffurflen B  Parhad

| Gweithredu Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac Amgylcheddol yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Uned 312) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Cwblhau dogfennau yn unol â gofynion gweithdrefnau'r sefydliad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adolygu gweithdrefnau'r sefydliad i sicrhau na fyddant yn achosi peryglon a risgiau posibl: rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i chwech o'r canlynol:** | | | | |
| gwaredu sylweddau a deunyddiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| dulliau a thechnegau gosod a/neu gynnal a chadw | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| codi a thrin (â llaw a gyda chymorth mecanyddol) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| presenoldeb ffyrdd drwodd i gerbydau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| storio hylifau, sylweddau a deunyddiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| defnyddio offer, cyfarpar ac adnoddau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| defnyddio cyfarpar mynediad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gweithio mewn amgylchedd a allai fod yn beryglus (e.e. presenoldeb asbestos, llwch, mygdarth neu anwedd) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gweithio yn rhywle uchel | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gweithio mewn mannau cyfyng | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Gweithredu gweithdrefnau'r sefydliad, cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio, cynnal a chadw, trin, cludo a storio'r canlynol yn ddiogel:<br>• offer, peiriannau a chyfarpar mynediad<br>• cyfarpar a chydrannau<br>• deunyddiau a sylweddau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

| Gweithredu Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac Amgylcheddol yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Uned 312) | Cyflogwr E1 | E2 | E3 | E4 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhoi gwybod i'r bobl berthnasol yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad am beryglon a risgiau posibl, deunyddiau a sylweddau a allai fod yn niweidiol:** | | | | |
| Pobl berthnasol: rhaid i brentisiaid gael eu gweld ar o leiaf un o'r canlynol: | | | | |
| cwsmeriaid/cleientiaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cynrychiolwyr cleientiaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| goruchwylwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| rheolwr safle/contract | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| contractwyr/crefftau eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| aelodau o'r cyhoedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cydweithwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Cadarnhau nad yw ymddygiad pobl wrth wneud y gwaith gosod a/neu gynnal a chadw yn achosi peryglon a risgiau posibl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad os bydd rhywun yn anafu ei hun a/neu eraill, argyfyngau a gweithdrefnau gwagio safleoedd:** | | | | |
| Anafiadau/argyfyngau/gwagio: rhaid i brentisiaid gael eu gweld ar ddau o'r canlynol: (oherwydd natur yr ystod, Os NAD yw'r gweithgareddau'n digwydd yn naturiol, gellir eu cwmpasu drwy holi ar lafar) | | | | |
| tân | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| llifogydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| ffrwydrad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| atmosffer gwenwynig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| sioc drydanol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| anaf i berson/personau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Gweithredu gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cludo a/neu waredu deunyddiau, sylweddau a hylifau gwastraff yn ddiogel, yn unol â chyfarwyddiadau'r cyflenwyr a'r gwneuthurwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

| Sefydlu a Chynnal Perthnasoedd yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Uned: 313) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Nodi'r cleientiaid a'r cwsmeriaid y mae angen darparu gwybodaeth dechnegol a swyddogaethol iddynt | | | | |
| Cael yr wybodaeth dechnegol a'r wybodaeth swyddogaethol gyfredol a pherthnasol y mae angen ei darparu i'r cleientiaid a'r cwsmeriaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Darparu arweiniad a chyngor cywir i'r cleientiaid a'r cwsmeriaid ar faterion technegol a swyddogaethol sy'n gysylltiedig â'r system peirianneg gwasanaethau adeiladu sydd wedi'i gosod a/neu ei chynnal a'i chadw o ran:<br>• materion iechyd a diogelwch<br>• gweithredu diogel ac effeithiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Darparu gwybodaeth yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad:** | | | | |
| Gweithdrefnau'r sefydliad: | | | | |
| rheoli gwybodaeth | | | | |
| datganiad dull | | | | |
| rheoli prosiect | | | | |
| asesu risg | | | | |
| gweithredu a monitro gofynion a materion iechyd a diogelwch | | | | |
| gweithredu a monitro materion yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol | | | | |
| gwasanaethau i gwsmeriaid | | | | |
| adrodd am ddamweiniau | | | | |
| argyfyngau | | | | |
| cyfathrebu â phobl berthnasol | | | | |
| **Dangos i'r cleientiaid a'r cwsmeriaid, fel y bo'n briodol, sut mae'r system peirianneg gwasanaethau adeiladu sydd wedi cael ei gosod a/neu ei chynnal a'i chadw yn gweithredu:** | | | | |
| Amgylchedd gwaith y system (mewnol a/neu allanol): rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i o leiaf **un** o'r canlynol: | | | | |
| domestig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| annomestig (masnachol, diwydiannol, amaethyddol, garddwriaethol, hamdden ac adloniant, cyfleusterau gofal preswyl a meddygol, priffyrdd cyhoeddus a pharciau, sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, adeiladau traddodiadol/hanesyddol cyn 1919) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

| Sefydlu a Chynnal Perthnasoedd yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Uned: 313) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Cadarnhau mewn perthynas â'r gwaith gosod a/neu gynnal a chadw:<br>• disgwyliadau a gofynion y cleient a'r cwsmer<br>• bod y system peirianneg gwasanaethau adeiladu mewn cyflwr boddhaol<br>• y broses drosglwyddo | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sefydlu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda chleientiaid a chwsmeriaid, gan gynnwys delio ag anghytundebau mewn ffordd gyfeillgar ac adeiladol, er mwyn cynnal perthnasoedd da | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ymateb yn effeithiol i geisiadau am wybodaeth dechnegol a swyddogaethol gan gleientiaid a chwsmeriaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adrodd, cofnodi ac argymell, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad ac fel y bo'n briodol, unrhyw amrywiadau i'r gwaith gosod a/neu gynnal a chadw i'r cleientiaid, y cwsmeriaid a phobl berthnasol eraill:** | | | | |
| Pobl berthnasol: rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i o leiaf **un** o'r canlynol: | | | | |
| cwsmeriaid/cleientiaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cynrychiolwyr cleientiaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| goruchwylwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| rheolwr safle/contract | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| contractwyr/crefftau eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| aelodau o'r cyhoedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cydweithwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Cydymffurfio â safonau'r sefydliad ar gyfer ymddangosiad ac ymddygiad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Cydlynu Safle Gwaith yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Uned 314) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| **Cynhyrchu asesiad risg a datganiad dull ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud ar y system peirianneg gwasanaethau adeiladu a nodwyd:** | | | | |
| domestig | | | | |
| annomestig (masnachol, diwydiannol, amaethyddol, garddwriaethol, hamdden ac adloniant, cyfleusterau gofal preswyl a meddygol, priffyrdd cyhoeddus a pharciau, sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, adeiladau traddodiadol/hanesyddol cyn 1919) | | | | |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Dyrannu dyletswyddau a chyfrifoldebau i weithwyr, pan fo'n briodol, er mwyn defnyddio eu cymhwysedd yn y ffordd orau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhoi cyfarwyddiadau i'r gweithwyr, lle bo hynny'n berthnasol, am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn glir ac yn gryno | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cadarnhau bod unrhyw gyfarwyddiadau a roddir yn cael eu deall | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cydlynu gwaith contractwyr eraill yn effeithiol, pan fo hynny'n berthnasol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Monitro, fel y bo'n briodol, bod gwaith gweithwyr yn ddiogel, yn addas i'r diben, yn gost-effeithiol ac yn unol â'r canlynol:<br>• arferion gweithio sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant<br>• y fanyleb<br>• y fersiynau cyfredol o safonau a rheoliadau priodol y diwydiant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sicrhau bod camau diogel a phriodol yn cael eu cymryd yn brydlon pan fydd diffyg cydymffurfio yn cael ei nodi yn ystod y rhaglen waith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r gwaith gosod a/neu gynnal a chadw yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, y fersiynau cyfredol o reoliadau a safonau priodol y diwydiant:** | | | | |
| Gweithdrefnau'r sefydliad: rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i o leiaf **dri** o'r canlynol: | | | | |
| rheoli gwybodaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| datganiad dull | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cynnal a chadw (wedi'i gynllunio ac ymatebol) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| rheoli prosiect | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| asesu risg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gweithredu a monitro gofynion a materion iechyd a diogelwch | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gweithredu a monitro materion yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gwasanaethau i gwsmeriaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**(mae'r ystod yn parhau ar y dudalen nesaf)**

## Ffurflen B Parhad

| Cydlynu Safle Gwaith yn y Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Uned 314) | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| adrodd am ddamweiniau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| argyfyngau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cyfathrebu â phobl berthnasol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Cysylltu â'r bobl berthnasol i ddatrys materion sydd y tu allan i gwmpas eich swydd:** | | | | |
| pobl berthnasol: rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i o leiaf **ddau** o'r canlynol: | | | | |
| cwsmeriaid/cleientiaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cynrychiolwyr cleientiaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| goruchwylwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| rheolwr safle/contract | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| contractwyr/crefftau eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| aelodau o'r cyhoedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cydweithwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Rhaid i'r dysgwr allu gwneud y canlynol:** | | | | |
| Gwirio bod y cyfarpar, yr ategolion a'r cydrannau:<br>• Yn gydnaws â'r amgylchedd gwaith<br>• Yn unol â'r fanyleb<br>• O'r math gofynnol a chywir<br>• Yn cael eu danfon yn brydlon a heb eu difrodi<br>• Yn addas ac wedi eu storio'n ddiogel | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cadarnhau bod y gwaith gosod a/neu gynnal a chadw wedi'i gwblhau'n unol â'r:<br>• y fanyleb<br>• y fersiynau cyfredol o safonau a rheoliadau priodol y diwydiant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen B Parhad

| Gwneud Gwaith Trydanol ar Systemau Plymio a Gwresogi (Uned 320PH)<br>Gellir efelychu agwedda o brofion diogelwch critigol ynglŷn â gwaith trydanol mewn amgylchedd rheoledig sydd o dan oruchwyliaeth unigolyn cymwys | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Archwilio a rhag-gomisiynu | | | | |
| **Nodi dulliau o ddewis cyfarpar trydanol, ceblau/gwifrau, ategolion a chydrannau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben:** | | | | |
| Mae'r cyflenwad trydan yn addas ar gyfer systemau plymio a gwresogi domestig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Datgomisiynu / Gosod | E1 | E2 | E3 | E4 |
| **Cyflawni'r dulliau a'r technegau ar gyfer datgysylltu, gosod a/neu gysylltu cyfarpar trydanol, ceblau/gwifrau, ategolion a chydrannau yn unol â'r canlynol:**<br>• **dyluniad y system gwasanaethau adeiladu mecanyddol (plymio a gwresogi)**<br>• **cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr**<br>• **y gweithdrefnau cywir ar gyfer ynysu diogel** | | | | |
| Y dull cywir o ynysu trydanol cyn dechrau gweithio: | | | | |
| datgysylltu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gosod | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cysylltu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Statws y cyflenwad trydan: | | | | |
| byw | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| marw | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ynysu cyfarpar a chydrannau trydanol sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r system blymio a gwresogi domestig yn ddiogel: **Cyfarpar trydanol**: rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i o leiaf **un** o'r canlynol: | | | | |
| ynyswyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| torwyr cylchedau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| dyfeisiau rheoli – trydanol: electronig, electro-mecanyddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| switsys | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cyfarpar rheoli motor | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| paneli rheoli – rheoli amgylcheddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## Ffurflen B Parhad

| Gwneud Gwaith Trydanol ar Systemau Plymio a Gwresogi (Uned 320PH)<br>Gellir efelychu agwedda o brofion diogelwch critigol ynglŷn â gwaith trydanol mewn amgylchedd rheoledig sydd o dan oruchwyliaeth unigolyn cymwys | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| Ynysu cyfarpar a chydrannau trydanol sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r system blymio a gwresogi domestig yn ddiogel: **Cyfarpar trydanol**: rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i **I gyd** o'r canlynol: | | | | |
| ffiwsys | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| diogelu o ran daearu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| allfeydd socedi/sbardunau â ffiws | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| rheolyddion clyfar | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ynysu cyfarpar a chydrannau trydanol sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r system blymio a gwresogi domestig yn ddiogel: **Cyflenwad trydanol:** darpariaeth sengl a/neu aml-gam foltedd isel iawn a/neu foltedd isel ar gyfer: (rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i o leiaf **tri** o'r canlynol): | | | | |
| rheolil | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cyfathrebu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| gwresogi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| goleuo | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| pŵer | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| TYnysu cyfarpar a chydrannau trydanol sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r system blymio a gwresogi domestig yn ddiogel: **Cydrannau**: rhaid i brentisiaid gael eu gweld yn rhoi sylw i o leiaf chwech o'r canlynol: | | | | |
| boeler | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| rheolyddion gwres canolog, falfiau'r parth (2 borth, 3 phorth, safle canol a pheiriant dargyfeirio), rhaglennydd, amserydd, thermostatau, thermostatau ystafell y mae modd eu rhaglennu, optimeiddiwr, thermostat rhew, canolfan weirio, thermostat silindr, llwybryddion Wi-fi, ymestynwyr cwmpas Wi-Fi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| canolfannau weirio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| twymwr tanddwr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| cawod ar unwaith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| pwmp cawod | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| baddon/twb poeth jacuzzi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| toiled â mwydwr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**(mae'r ystod yn parhau ar y dudalen nesaf)**

| Gwneud Gwaith Trydanol ar Systemau Plymio a Gwresogi (Uned 320PH)<br>Gellir efelychu agwedda o brofion diogelwch critigol ynglŷn â gwaith trydanol mewn amgylchedd rheoledig sydd o dan oruchwyliaeth unigolyn cymwys | Cyflogwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | E1 | E2 | E3 | E4 |
| dyfeisiau cynhyrchu gwres neu oeri | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| pympiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| ffaniau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
